CYPE(5)-08-21 - Papur i'w nodi 2

**Julie James AS/MS**
**Y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol**
**Minister for Housing and Local Government**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf: DC/JJ/00529/21

Lynne Neagle AS - Cadeirydd
Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg,
Senedd Cymru
SeneddPPIA@senedd.cymru

03 Mawrth 2021

Annwyl Lynne,

Rwy'n ysgrifennu yn unol â'r cytundeb cysylltiadau rhyng-sefydliadol i roi gwybod i chi y bydd Cyfarfod Gweinidogol y Cyngor Prydeinig-Gwyddelig (BIC) ar y Sector Gwaith Cynhwysiant Digidol yn cael ei gynnal yr wythnos hon, sef dydd Gwener 5 Mawrth. Mae'r Aelod-weinyddiaethau wedi cytuno i gynnal cyfarfod rhithiol, dan arweiniad Ynys Manaw. Fel y Gweinidog sy'n gyfrifol am gynhwysiant digidol, fi fydd yn cynrychioli Llywodraeth Cymru.

Mae'r cyfarfod yn gyfle i Aelod-weinyddiaethau'r BIC drafod cynhwysiant digidol, sy'n gwestiwn allweddol o ran cyfiawnder cymdeithasol a chydraddoldeb, a'r gweithgarwch sy'n mynd rhagddo ar draws y gweinyddiaethau i sicrhau bod pobl yn gallu ymgysylltu â'r newidiadau technolegol sy'n digwydd mor gyflym yn ein cymdeithas, a manteisio arnynt. Yn ogystal, bydd yn gyfle i drafod effaith y pandemig ar agenda cynhwysiant digidol a'r rôl hollbwysig y mae'n rhaid inni i gyd ei chwarae er mwyn helpu dinasyddion i feithrin hyder digidol drwy gyfuniad o gymhelliant, sgiliau digidol sylfaenol a mynediad.

Bydd y cyfarfod yn rhoi cyfle i Weinidogion ystyried gwaith ehangach sy'n digwydd ar draws y sectorau mewn perthynas â diogelwch ar-lein, gan ddod i gytundeb ar yr un pryd ar y Cynllun Gwaith i'r dyfodol.

Bydd y cyngor yn cytuno ar hysbysiad yn y cyfarfod, a byddaf yn rhoi'r manylion cyhoeddi a chanlyniad y cyfarfod i'r Pwyllgor maes o law.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Julie.James@llyw.cymru
Correspondence.Julie.James@gov.Wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Rwyf wedi ysgrifennu mewn termau tebyg at gadeiryddion y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad, Mick Antoniw AS; y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, John Griffiths AS; Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu, Bethan Sayed AS; a Phwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau, Russell George AS.

Yn gywir,

**Julie James AS/MS**
Y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol
Minister for Housing and Local Government